

Natur Greadigol Creative Nature



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Dyddiad: 25ed Medi 2020

Natur Greadigol / Creative Nature

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Nodau a Diben

Mae'r Memorandwm hwn yn cofnodi dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru ynghylch eu hamcanion cyffredin, materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac egwyddorion cyffredinol cydweithredu. Trwy'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, mae'r ddau sefydliad yn gobeithio datblygu meysydd gweithio ar y cyd a gwella'r ffordd y darperir amcanion cyffredin drwy rannu gwybodaeth. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu'r ddau sefydliad i gyrraedd yn ehangach, meithrin talent greadigol a datblygu gwell dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol, a'r gwerth y gall y celfyddydau ei gynnig i hyn, neu ei gynhyrchu ohono.

Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i gyflawni'r saith nod llesiant. Mae'r nodau, ynghyd â'r pum dull o weithio, yn darparu gweledigaeth a rennir i'r gyrrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Corff Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae'n rheoli 7% o arwynebedd tir Cymru gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, ac yn gweithredu ein canolfannau i ymwelwyr, cyfleusterau hamdden, deorfeydd a labordy. Ei bwrpas yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy.

Mae'n dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Diffiniwyd hyn yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fel "defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt. Wrth wneud hynny, bydd yn diwallu anghenion cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."

Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen annibynnol, a sefydlwyd gan y Siarter Frenhinol ym 1994. Mae hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a dyma'r corff swyddogol sy'n ariannu ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Dyma ddsbarthwr swyddogol cyllid celfyddydau'r Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Gweledigaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yw "Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a lles y genedl". Mae ganddo ddwy flaenoriaeth sy'n sail i'r weledigaeth hon, sef:

- Hyrwyddo Cydraddoldeb fel sylfaen ymrwymiad clir i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru
- Cryfhau Gallu a Chydnerthedd y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Mae'r Cyngor hefyd wedi diffinio sut y mae am i Gyngor Celfyddydau Cymru ymddwyn wrth gyflawni'r ddwy flaenoriaeth hon:

- Galluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i weithio'n fwy effeithiol, gan gydweithredu â mwy o ddychymyg â phartneriaid tebyg ar draws Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru yn teimlo bod synergedd clir rhwng eu hamcanion ac maent eisoes yn gweithio tuag at wella lles amgylcheddol, diwylliannol, economaidd, cymdeithasol, corfforol a meddyliol pobl Cymru. Mae'n gyfleus edrych ar agendâu a rennir ac ystyried sut y bydd gweithio ar y cyd yn cefnogi'r ddau sefydliad i gyflawni'n well yn erbyn amcanion llesiant unigol. Mae'r bartneriaeth rhwng y sefydliadau yn bwysig oherwydd:

- Mae natur wrth wraidd hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.
- Mae dyfodol ein hamgylchedd naturiol yn bryder i ni i gyd ac mae angen i bawb fod yn gweithio tuag at ffordd fwy cynaliadwy a charbon positif o fyw.
- Mae'r celfyddydau'n darparu ffyrdd creadigol o gynnwys pobl a chymunedau yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, datblygu ymwybyddiaeth gynyddol, darparu ffyrdd newydd o fynegiant a dod o hyd i ddatrysiadau arloesol i bryderon amgylcheddol.
- Mae natur yn ysbrydoliaeth i artistiaid, perfformwyr, awduron, beirdd, cerddorion a gwneuthurwyr, ac mae'n llwyfan i lawer o arferion creadigol cyfoes.
- Mae potensial i gynyddu cyrhaeddiad a chynulleidfa'r amgylchedd naturiol a'r celfyddydau ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy.
- Gall natur a'r celfyddydau helpu i hyrwyddo lles a gwella ansawdd bywydau pobl.

Gweledigaeth

Mae Natur Greadigol yn bartneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru i adeiladu'r berthynas rhwng y celfyddydau, natur a mannau awyr agored Cymru. Ei weledigaeth yw:

- Mwy o bobl, yn enwedig o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cyrchu'r amgylchedd naturiol a'r celfyddydau mewn ffyrdd newydd, gan elwa ar yr effaith gyfunol y mae natur a'r celfyddydau yn ei chael ar iechyd a lles.
- Mwy o bobl yn gwerthfawrogi natur ac yn cyfrannu'n weithredol at gynnal ei ddyfodol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol..
- Mwy o weithgareddau economaidd mewn rhannau allweddol o Gymru, lle mae angen y buddion fwyaf, gan godi dyheadau i gynnal busnesau lleol a llwybrau gyrfa artistig.
- Sector diwylliannol sy'n cydnabod gwerth yr amgylchedd naturiol fel llwyfan ar gyfer cyflwyno gweithgareddau artistig a diwylliannol ac sy'n defnyddio'r celfyddydau er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a budd cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol ehangach.
- Sector amgylcheddol sy'n cydnabod gwerth y celfyddydau ac yn eu defnyddio nhw a gweithwyr proffesiynol y diwylliant i roi llais i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar faterion cymdeithasol, ecolegol ac amgylcheddol pwysig.

Gweithio ar y cyd

Trwy weithio ar y cyd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru yn anelu at gyflawni'r canlynol:

- Cefnogi creu gwaith celf o ansawdd uchel wedi'i leoli yn yr amgylchedd naturiol, a/neu'n ymwneud ag ef, gan gynnig cyfleoedd priodol ar draws ffurfiau ar gelfyddyd.

- Cefnogi datblygiad a darpariaeth cyfleoedd trawsnewidiol i artistiaid a, thrwyddynt, ennyn diddordeb pobl Cymru mewn sgwrs am ddyfodol ein hamgylchedd naturiol.
- Cefnogi'r sector diwylliannol i fabwysiadu arferion cynaliadwy a lliniaru effeithiau amgylcheddol.
- Cydweithio ar ymchwil sy'n archwilio buddion cyfunol celf a natur ar les pobl, gan gryfhau'r rolau eiriolaeth priodol..
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu ffyrdd aml-sector newydd o weithio trwy rannu adnoddau, gwybodaeth a phrofiad (e.e. hwyluso cyfleoedd dysgu rhwng cymheiriaid a datblygiad proffesiynol).
- Rhannu data cynulleidfaoedd/ymwelwyr i feithrin dealltwriaeth o'r defnydd o'r amgylchedd naturiol ar gyfer y celfyddydau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Cynhyrchu strategaeth gyfathrebu ar y cyd ar gyfer Natur Greadigol, gan alluogi'r ddau sefydliad i gyflwyno'r fenter yn fewnol ac yn allanol.

At hynny, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Lle bo modd, yn gwneud yn siŵr bod y tir cyhoeddus y mae'n ei reoli ar gael i'r sector diwylliannol fel lleoliad, neu fel adnodd ar gyfer ymchwil a datblygu

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn:

- Cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo ddatblygu ei raglen waith (i gynnwys y prosiectau hynny y mae'n eu hariannu trwy'r Loteri Genedlaethol), gan ei helpu i gyrraedd ar draws ffurfiau ar gelfyddyd yn effeithiol a chefnogi creu cynnig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar y safle.

Llywodraethu

Er mwyn cefnogi cyflwyno'r weledigaeth trwy weithio ar y cyd, bydd grŵp llywio traws-sefydliadol yn cyfarfod bob dwy flynedd, gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal ynghylch rhaglenni busnes a gwaith ar y cyd yn ôl yr angen. Adroddir ar y cynnydd trwy'r trefniadau presennol, yn ogystal â thrwy ddiweddariadau a ddarperir i'r Timau Gweithredol priodol. Bydd unrhyw amcanion ar y cyd yn cael eu cytuno gan fecanweithiau llywodraethu priodol pob sefydliad, gan gymryd i ystyriaeth cyfyngiadau a rhwymedigaethau ariannol; a chyflawni blaenoriaethau strategol.

Statws cyfreithiol

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ddatganiad o fwriad i feithrin cydweithredu dilys a buddiol i bawb, nid yw'n ymrwymiad gan y naill barti na'r llall i ddyrannu arian neu adnoddau. Ni ddehonglir unrhyw beth yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fel rhywbeth sy'n creu unrhyw berthynas gyfreithiol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru ond yn hytrach ymrwymiad i weithio mewn ffyrdd cynaliadwy i gyflawni blaenoriaethau amgylcheddol, diwylliannol a lles a rennir.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru, fel Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn atebol i Weinidogion a Llywodraeth Cymru. Mae'r partion yn ymwybodol bod unrhyw ofynion perthnasol yn y dyletswyddau cyfreithiol a threfniadau llywodraethu hyn yn cymryd blaenoriaeth dros y Memorandwm hwn.

Hyd ac adolygu

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn wirfoddol a gellir ei addasu drwy gydsyniad swyddogion awdurdodedig Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dod i rym pan geir llofnod y swyddogion awdurdodedig o Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru, a bydd yn parhau i fod yn weithredol nes iddo gael ei ddiwygio neu'i ddileu gan unrhyw un o'r partneriaid drwy gydsyniad gan y ddwy ochr..

Prif Gysylltiadau

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru yn enwebu prif gyswllt yr un. Bydd y prif gysylltiadau hyn yn gyfrifol am hybu cydberthynas rwydd (lle y bydd buddiannau masnachol y partïon yn ei chaniatáu) a thryloyw rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Celfyddydau Cymru, gan ddatrys anawsterau a monitro gweithrediad llyfn y Memorandwm hwn..

Llofnodwyr


Gwnaed y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar ran:

Cyfoeth Naturiol Cymru



.....
Clare Pillman
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru



.....
Nick Capaldi
Prif Weithredwr
Cyngor Celfyddydau Cymru

Lluniau:

Clawr ar y chwith: Egin, Vikram Iengar ©Steve Peake

Ar y dde *Fair winds and following seas*, Dave Appleyard ©Janet Baxter

Gwaelod: Frank, The Jones Collective a Plastique Fantastique ©Studiocano.co.uk